Telerau ac Amodau

Noder: wrth wneud archeb, bydd y telerau ac amodau canlynol yn eich rhwymo i gytundeb cyfreithiol â Nant Gwrtheyrn. **Mae'n bwysig eich bod yn darllen y canlynol yn ofalus.**

Data
Yma yn Nant Gwrtheyrn, rydym yn cymryd eich preifatrwydd o ddifrif a byddwn ond yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i weinyddu'ch cyfrif ac i'ch darparu gyda'r cynnyrch a'r gwasanaethau yr ydych wedi gofyn amdanynt.

Canslo cwrs
Os oes rhaid i Nant Gwrtheyrn ganslo cwrs am ba bynnag reswm (yn cynnwys cyflwyno cyfyngiadau iechyd cyhoeddus yn cael eu cyflwyno gan lywodraethau lleol neu genedlaethol), rhoddir gwybod i chi bythefnos cyn diwrnod cyntaf y cwrs. Pan na ellir rhoi gwybod o fewn cyfnod o bythefnos, bydd Nant Gwrtheyrn yn gwneud pob ymdrech i gysylltu â'r unigolion hynny sy'n cael eu heffeithio gan y cyhoeddiad cyn gynted ag y bo modd.

Dan yr amgylchiadau hyn, bydd modd i chi drosglwyddo eich archeb i gwrs arall o fewn 12 mis neu, os nad yw hynny'n bosib, rhoddir ad-daliad.

Os oes angen i chi ganslo, cysylltwch â ni ar unwaith. Os ydych chi'n penderfynu canslo cwrs, cewch ddewis trosglwyddo eich archeb a'ch taliad i gwrs arall o fewn 6 mis. Unwaith y bydd y balans wedi'i dalu, mae'r canlynol yn berthnasol:

Canslo	**Ad-daliad**
8 wythnos cyn diwrnod cyntaf y cwrs	50% o'r balans
8-4 wythnos cyn diwrnod cyntaf y cwrs	25% o'r balans
O fewn 4 wythnos cyn diwrnod cyntaf y cwrs	Dim ad-daliad
Peidio cyrraedd o gwbl	Dim ad-daliad
Gadael cyn diwedd y cwrs	Dim ad-daliad

Covid-19

Mae Nant Gwrtheyrn wedi addasu ein gofodau dysgu a'n gofodau cymdeithasol er mwyn cydymffurfio â mesurau pellhau cymdeithasol sydd wedi eu cyflwyno wrth geisio atal Covid-19 rhag lledaenu. Disgwyliwn i'n holl ymwelwyr, gan gynnwys dysgwyr ar gyrsiau preswyl, gydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau a fydd mewn grym yn ystod eu hymweliad.

RHAID i ddarpar ymwelwyr, gan gynnwys dysgwyr sydd wedi archebu lle ar gyrsiau, sydd â symptomau Covid-19 cydnabyddedig a / neu ganlyniad prawf positif, hysbysu Nant Gwrtheyrn ar unwaith.

Os y bydd ymwelwyr, gan gynnwys dysgwyr, yn datblygu unrhyw symptomau Covid-19 cydnabyddedig tra ar y safle, dylent fynd i'w llety ar unwaith a hysbysu swyddogion Nant Gwrtheyrn.

Mae Nant Gwrtheyrn yn cadw'r hawl i ofyn am wybodaeth gan ymwelwyr, gan gynnwys dysgwyr, at ddibenion olrhain cyswllt ('contact tracing').

Mae penderfyniad Nant Gwrtheyrn yn derfynol.